

‘Sefyll o dan adain cariad Duw, a ddaw â hedd i ni’

Myfyrdod gan y Parch Jim Clarke

Pwy ohonom nad sy'n byw gydag ychydig o bryder, ofn ac ansicrwydd yn llechu yn ein calon wrth wynebu'r dyfodol dan gwmwl y feirws – corona. Tydio damaid o ots faint o gyfoeth ac ariam sydd gyda ni, neu pa mor glyfar ydan ni, rydan ni'n gwbl ddiymadfeth bron yn wyneb yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas. Ac er mor dda yw'n Gwasanaeth Iechyd, nid yw'r gallu gennym i wrthsefyll na dadwneud effaith ymlediad y feirws yn ein mysg – dim ond ei dderbyn, a disgwyl iddo ddarfod o'n plith.

Ond dwi am awgrymu yn gynnil fod gennym ni Gristnogion o leiaf un antidôt i'r holl bryder sydd yn pwyso'n drwm y dyddiau hyn – sef ein ffydd yn Nuw ac yn ei Fab Iesu, yr un a ddaeth i'n plith, nid fel Gwardwr yn unig, ond hefyd fel ffrind a chydymaith ar lwybrau bywyd. Iesu yw'r unig un bellach y gallwn gerdded law yn llaw yn ddiogel gydag ef, ac fe ddylem weddio arno i'n tywys ymlaen o gam i gam drwy ddryswch ein presennol. Dylem ymddiried ein gorffennol, ein heddiw a'n hyfory i'w ofal ef, gan ddysgu dibynnu o'r newydd arno wrth wynebu'r dyfodol gyda ffydd.

‘Diolchwch i'r Arlwydd oherwydd da yw’ meddai'r Salmydd, ac yn union fel y bu Duw yn dda wrthym yn y gorffennol, rhaid inni ymddiried y bydd felly eto gyda ni heddiw ac ymhob yfory ddaw eto i'n rhan. Yr unig sicrwydd sydd gennym mewn môr o ansicrwydd yw'n cred di-ysgog yn y Duw sydd wedi addo bod gyda ni ymhob peth a thrwy bob peth. Felly, gydag addewidion Duw, a'i Ysbryd Glân yn gymorth inni dewch inni fyw iddo mewn llawn hyder ffydd – yr union ffydd ddaw a dyddiau o lawenydd, hyder a buddugoliaeth inni wedi'r cyfnod hwn yn ein hanes.

*Ymlaen af â'm hyder yn Nuw
yn wyneb pob her ddaw i'm rhan;
a'i wên yn llawenydd fy myw
ei wên sy'n gadernid i'r gwan;
ymlaen drwy bob storm gyda'i fraich
yn gysgod rhag gwayw y gwynt,
a'i ysgwydd i gynnal fy match
wrth fymyl drwy helbul fy hynt.*